# Ymgynghoriad ar Reolau Safonol Rhif 12. Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol

**Rheolau safonol ar gyfer y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol**

**Gwanwyn 2014**

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

(h) Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r
ddogfen hon gyda chaniatâd
Cyfoeth Naturiol Cymru

# Crynodeb

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 yn ein galluogi i gynnig trwyddedau safonol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnes wrth gynnal safonau amgylcheddol. Maent wedi'u seilio ar setiau o reolau safonol y gallwn eu cymhwyso'n eang yng Nghymru a Lloegr. Datblygir y rheolau gan ddefnyddio asesiadau o'r risg amgylcheddol a gyflwynir gan y gweithgaredd.

Mae'r rheolau'n cymryd cryn amser, adnoddau ac ymgynghori i'w datblygu ond pan fyddant ar waith maent yn gwneud y broses gwneud cais a phennu'r ceisiadau'n gymharol hwylus. Mae hyn oherwydd nad oes angen asesiad risg safle-benodol.

Dyma'r deuddegfed ymgynghoriad ar setiau o reolau safonol. Rydym yn ymgynghori ar y trwyddedau canlynol gan eu bod wedi'u newid yn sgil newidiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 ac o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol. Rydym yn cynnig diwygio 12 o'r rheolau safonol presennol.

Hoffem eich barn ar y newidiadau arfaethedig i un neu fwy o'r rheolau safonol canlynol:

1. SR2008 No24: Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Clinigol
2. SR2008 No25: Gorsaf Trosglwyddo a Thrin Gwastraff Clinigol
3. SR2009 No 2: Gosodiad Rhan A Effaith Isel
4. SR2009 No 3: Gosodiad Rhan A Effaith Isel ar gyfer cynhyrchu Biodiesel
5. SR2010 No12: Trin gwastraff i gynhyrchu pridd
6. SR2012 No 3: Compostio mewn systemau caeedig
7. SR2012 No 4 Gosodiad Rhan A: Compostio mewn systemau caeedig
8. SR2012 No 7: Compostio mewn systemau agored
9. SR2012 No 8 Gosodiad Rhan A: Compostio mewn systemau agored
10. SR2012 No10: Treulio anaerobig ar y fferm gan ddefnyddio gwastraffoedd fferm yn unig
11. SR2012 No12: Cyfleuster treulio anaerobig gan gynnwys defnyddio bionwyon canlyniadol
12. SR2012 No13 Gosodiad Rhan A: Trin lludw gwaelod llosgyddion

Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi'r rheolau safonol newydd ar ein tudalen we, ynghyd â manylion y broses gwneud cais.

# Cynnwys


**1 Ynghylch yr ymgynghoriad hwn** **1**
Yr hyn yr ydym yn ymgynghori arno 1
Yr hyn y mae'r ymgynghoriad yn ei olygu i chi 1
**2 Trwyddedau safonol – sut y maent yn gweithio** **2**
**3 Setiau arfaethedig o reolau** **4**
**4 Cwestiynau ymgynghori** **8**
**5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn** **9**
Dyddiadau pwysig 9
Sut i ymateb 9
Sut y bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio? 9
Sut y byddwn yn defnyddio'ch tystiolaeth 9
Egwyddorion yr ymgynghoriad 10

# 1 Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Mae hon yn ddogfen esboniadol sy'n rhoi amlinelliad o'r dogfennau yr ydym yn ymgynghori arnynt a throsolwg o'r broses drwyddedu safonol. Fe'i dyluniwyd i'ch helpu i'w deall a rhoi sylwadau arnynt.

## Yr hyn yr ydym yn ymgynghori arno

Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ein galluogi i ddiwygio rheolau safonol yn unol ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio arnynt. Rydym yn gofyn am eich barn o ran a ydym wedi nodi effeithiau'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn gywir ar gyfer pob gweithgaredd a restrir ac a yw'r setiau diwygiedig o reolau yn briodol i reoli'r gofynion hynny.

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i'r 12 set o reolau safonol a restrwyd er mwyn galluogi parhau â'r setiau rheolau hyn fel gweithgareddau gwastraff.

## Yr hyn y mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu i chi

Rydym yn credu y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i:

**Weithredwyr, mudiadau masnach, ffermwyr a busnes:** dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau'n gweithio i chi a'ch diwydiant a hefyd yn rhoi'r amddiffyniad angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd pobl. Hoffem unrhyw awgrymiadau a allai fod gennych i ehangu ymrwymiad â rheolau presennol ac â setiau eraill o reolau.

**Rheoleiddwyr eraill, y cyhoedd, grwpiau cymunedol a sefydliadau anllywodraethol sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol:** dyma'ch cyfle i sicrhau bod y rheolau'n gweithio i ddarparu'r amddiffyniad angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd pobl, a'u bod yn ddefnyddiol i ddiwydiant hefyd.

# 2 Trwyddedau safonol – sut y maent yn gweithio

**Beth yw trwydded safonol?**

Mae **trwyddedau safonol** yn cynnwys un amod, sy'n cyfeirio at set benodedig (neu setiau penodedig) o reolau safonol y mae'n rhaid i weithredwr gydymffurfio â hi/nhw. Mae'r rheolau safonol yn diffinio'r gweithgareddau y gall gweithredwr eu cynnal ac yn nodi'r cyfyngiadau angenrheidiol ar y gweithgareddau hynny, megis terfynau allyriadau neu'r mathau o wastraff neu ddeunyddiau craidd y gellir eu derbyn ar y safle. Cyhoeddir y rheolau safonol ar Gov.UK yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Dyma'r deuddegfed ymgynghoriad o'r fath, ond y cyntaf ers ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gall gweithredwr sy'n dymuno cynnal gweithgaredd arbennig edrych ar y rheolau safonol ac os gall gydymffurfio â hwy gall benderfynu gwneud cais am drwydded safonol. Rydym yn gallu dosbarthu'r drwydded yn gynt ac yn rhatach oherwydd nad oes yn rhaid i ni wneud penderfyniadau ar amodau trwydded safle-benodol. Mae'n rhaid i weithredwr na all fodloni gofynion y rheolau safonol wneud cais am **drwydded arbennig** a rhoi rhagor o wybodaeth i ni. Mae angen rhagor o amser arnom i ddosbarthu trwydded arbennig oherwydd bod yn rhaid i ni asesu'r cais yn fanylach, a phenderfynu a ddylid cynnwys amodau safle-benodol neu beidio, ac ymgynghori'n unol â'n datganiad o gyfranogiad cyhoeddus.[1]

Nid oes hawl i apelio yn erbyn y rheolau mewn trwydded safonol oherwydd bod gwneud cais am drwydded safonol yn wirfoddol. Os yw gweithredwr yn dymuno newid sut y mae safle'n gweithredu er mwyn iddo fod y tu allan i gwmpas y rheolau safonol neu os yw o'r farn nad yw'r drwydded safonol bellach yn gweithio ar gyfer ei weithrediad penodol, y mae'n rhaid gwneud cais i amrywio trwydded arbennig. Mae'n rhaid i weithredwyr wneud cais am drwydded arbennig am unrhyw weithgareddau rheoledig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rheolau safonol. Yn gyffredinol mae potensial gan y gweithgareddau hyn i effeithio'n fwy ar yr amgylchedd, neu y mae angen rheoliadau mwy cymhleth ar y gweithrediadau hyn nag ar y rheini y gellir defnyddio rheolau safonol ar eu cyfer.

Gellir rhoi trwyddedau Rheolau Safonol pan fo un person cyfreithiol yn unig yn weithredwr ar y cyfleuster rheoledig. Ceir diffiniad o'r term 'Gweithredwr' yn rheoliad 7 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, sef y person a chanddo reolaeth dros weithredu cyfleuster rheoledig. Os nad yw'r cyfleuster rheoledig yn weithredol, y person y bydd ganddo reolaeth dros ei weithredu yw'r gweithredwr.

Yn ganolog wrth benderfynu a yw rhywun yn weithredwr cyfleuster rheoledig yw a yw'n gallu rheoli gweithrediad y cyfleuster. Mae'n rhaid iddo allu dangos bod ganddo'r awdurdod a'r gallu i sicrhau cydymffurfio â'r Drwydded Amgylcheddol.

Wrth asesu a yw'r awdurdod a'r gallu gan weithredwr (neu weithredwr arfaethedig) rydym yn ystyried y ffactorau canlynol ymhlith eraill.

[1]Working together: your role in our environmental permitting decision making, Edition 2.

A oes gan y gweithredwr/gweithredwr arfaethedig yr awdurdod a'r gallu i:

1) reoli gweithrediadau'r safle trwy reolaeth o ddydd i ddydd dros weithrediadau'r safle, gan gynnwys dull a chyfradd y gweithredu
2) sicrhau cydymffurfio effeithiol ag amodau'r drwydded
3) penderfynu pwy sydd yn y swyddi allweddol a chael gwared ar staff annigonol
4) gwneud penderfyniadau buddsoddi a/neu ariannol eraill sy'n effeithio ar berfformiad y cyfleuster
5) sicrhau bod y gweithgareddau rheoledig wedi'u rheoli'n briodol mewn argyfwng

Gall perchennog safle barhau i fod y gweithredwr ac yn ddeiliad y drwydded lle bo'n gosod contract ar gyfer gweithgareddau ar safle cyhyd â'i fod yn parhau i fod yn gyfrifol a'i fod yn goruchwylio'n ddigonol.

### Beth yw rheolau safonol?

Wrth ddatblygu setiau o **reolau safonol** rydym yn cynnal un asesiad risg ar gyfer gweithgaredd cyffredin. Mae hyn yn ein galluogi i ddiffinio'r ffiniau risg y gellir defnyddio'r rheolau ynddynt. Mae'r ffiniau hyn yn cynnwys nifer o gyfyngiadau megis maint, lleoliad a rheoliadau gweithredol. Bydd y cyfyngiadau yn rhai angenrheidiol er mwyn galluogi set gyson o reolau i leihau'r risg i lefel dderbyniol. Byddai'r rheolau yn gyson ar gyfer pob gweithredwr sy'n cynnal y gweithgaredd penodol hwnnw, heb ots am leoliad. Cyhoeddir y rheolau a'r asesiadau risg ymlaen llaw er mwyn i weithredwyr a'r cyhoedd wybod yn union pa reoliadau y byddwn yn eu cymhwyso i weithgaredd arfaethedig.

Wrth ddatblygu'r ffiniau risg ar gyfer pob set o reolau safonol, mae'n rhaid i ni amddiffyn ansawdd amgylcheddol rhai derbynyddion sensitif penodol. Er enghraifft, gall setiau rheolau safonol gynnwys rheol sy'n mynnu nad yw'r gweithgaredd yn digwydd o fewn pellter penodol i fathau penodedig o safleoedd cadwraeth natur, megis safleoedd Ewropeaidd[2].

Ni fydd y rheolau ar gyfer rhai gweithrediadau'n caniatáu rhai gweithgareddau o fewn pellter penodol i barth amddiffyn dyfrffordd neu darddiad dŵr daear. Bydd angen i weithredwyr sicrhau bod eu gweithrediad yn cydymffurfio â'r rheolau cyn gwneud cais. Os yw amgylchiadau lleol yn newid ar ôl cyhoeddi'r drwydded fel nad yw'r gweithrediad bellach yn cydymffurfio â'r rheolau safonol (er enghraifft dynodir bod safle cadwraeth o fewn y pellter sgrinio a ragnodwyd), gallai fod angen i weithredwr uwchraddio'r gweithrediad er mwyn cynnal lefelau amddiffyn neu wneud cais i newid i drwydded arbennig.

Rydym wedi seilio'r rhan fwyaf o'r rheolau ar yr amcanion y mae angen eu cyflawni. Maent yn nodi **yr hyn** yr ydym yn dymuno i weithredwyr ei gyflawni, ond heb ddweud wrthynt **sut** i wneud hyn. Eu cyfrifoldeb nhw yw hynny. Nid yw'r dull gweithredu hwn yn newydd, fe'i defnyddiwyd mewn cynlluniau blaenorol megis trwyddedau gollyngiadau ansawdd dŵr, trwyddedu rheoli gwastraff, atal a rheoli llygredd a rheoleiddio sylweddau ymbelydrol. Mae arweiniad ar sut i gydymffurfio â'r rheolau yr ydym eisoes wedi'u cyhoeddi ar gael yn **'Sut i gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol'**, sydd ar gael ar wefan GOV.UK.

---

[2]Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Arfaethedig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru a Lloegr. At ddibenion y rheolau safonol, ystyrir safle Ramsar yn safle Ewropeaidd.

# 3. Setiau arfaethedig o reolau diwygiedig

## 3.1 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2008No24 – Gorsaf trosglwyddo gwastraff clinigol a gwastraff gofal iechyd

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r rheolau diwygiedig yn gosod terfyn o 10 tunnell y dydd ar drin gwastraffoedd peryglus i'w hadfer a therfyn o 50 tunnell y dydd ar storio gwastraffoedd peryglus i'w hadfer neu gael gwared arnynt.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.2 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2008No25 – Gorsaf trosglwyddo a thrin gwastraff clinigol a gwastraff gofal iechyd

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r rheolau diwygiedig yn gosod terfyn o 10 tunnell y dydd ar drin gwastraffoedd peryglus i'w hadfer a therfyn o 50 tunnell y dydd ar storio gwastraffoedd peryglus i'w hadfer neu gael gwared arnynt. Ychwanegwyd terfyn ar drin gwastraffoedd nad ydynt yn beryglus i'w hadfer fel tanwydd, ynghyd â chod trin ychwanegol (R3) ac amod cynweithredol safonol cysylltiedig.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.3 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2009 No 2 – Gosodiadau Rhan A Effaith Isel

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Diweddarwyd yr amod sy'n ymwneud â hysbysu yn unol â fersiwn newydd y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n mynnu bod hysbysiadau'n cael eu gwneud 'ar unwaith'. Diweddarwyd nifer o ddehongliadau hefyd. Ni fu newidiadau i'r asesiad risg.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.4 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2009 No 3 – Gosodiadau Rhan A Effaith Isel

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Diweddarwyd yr amod sy'n ymwneud â hysbysu yn unol â fersiwn newydd y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n mynnu bod hysbysiadau'n cael eu gwneud 'ar unwaith'. Diweddarwyd nifer o ddehongliadau hefyd. Ni fu newidiadau i'r asesiad risg.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.5 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2010No12 – Trin gwastraff i gynhyrchu pridd, pridd amgen ac agregau

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r rheolau diwygiedig yn gosod terfyn o 75 tunnell y dydd ar drin sorod a lludw. Diweddarwyd rhai o'r dehongliadau. Ni fu newid i'r asesiad risg cyffredinol.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.6 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No7 – Compostio mewn systemau caeedig, Gweithrediad gwastraff

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Newidiwyd y teitl a'r rhagair i gynnwys y gair 'trin' o ran capasiti. Newidiwyd y tabl gweithgareddau i gynnwys terfyn dyddiol ar drin yn unol â'r rheoliadau. Ychwanegwyd un math o wastraff er mwyn i'r gwastraffoedd trwyddedig gyd-fynd â'r protocol ansawdd compostio, a newidiwyd un gwastraff arall o god 19 05 99 i'r cod 16 10 02 sy'n fwy priodol. Ychwanegwyd amod ar blâu. Bu newid bach i'r amod ar arogl er mwyn iddo gyd-fynd ag amodau'r templed newydd. Ychwanegwyd dau ddehongliad newydd, a diweddarwyd tri arall, a newidiwyd teitl yr Asesiad Risg Cyffredinol ond ni fu newid i'r asesiad risg ei hun.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.7 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No4 – Compostio mewn systemau caeedig, Gosodiad Rhan A

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Newidiwyd y teitl a'r rhagair i gynnwys y gair 'trin' o ran capasiti. Newidiwyd y tabl gweithgareddau er mwyn dangos y gweithgaredd a restrwyd o'r rheoliadau, a'r Gweithgareddau sydd â Chysylltiad Uniongyrchol. Ychwanegwyd un math o wastraff er mwyn i'r gwastraffoedd trwyddedig fod yn unol â phrotocol ansawdd compostio, a newidiwyd gwastraff arall o 19 05 99 i 16 10 02 sy'n fwy priodol. Ychwanegwyd amod ar blâu. Bu newid bach i'r amod ar arogl er mwyn iddo gyd-fynd ag amodau'r templed newydd. Ychwanegwyd dau ddehongliad newydd, a newidiwyd rhai. Newidiwyd teitl yr Asesiad Risg Cyffredinol ond ni fu newid i'r asesiad risg ei hun.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.8 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No7 – Compostio mewn systemau agored, Gweithrediad gwastraff

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Newidiwyd y teitl a'r rhagair i gynnwys y gair 'trin' o ran capasiti, ac ychwanegwyd terfyn trin i'r tabl gweithgareddau. Ychwanegwyd dau fath o wastraff er mwyn i'r gwastraffoedd trwyddedig fod yn unol â phrotocol ansawdd compostio, ac ychwanegwyd amod ar blâu. Bu newid bach i'r amod ar arogl er mwyn iddo gyd-fynd ag amodau'r templed newydd. Ychwanegwyd un dehongliad newydd a diweddarwyd rhai, a newidiwyd teitl yr Asesiad Risg Cyffredinol ond ni fu newid i'r asesiad risg ei hun.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.9 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No8 – Compostio mewn systemau agored, Gosodiad Rhan A

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Newidiwyd y teitl a'r rhagair i gynnwys y gair 'trin' o ran capasiti. Newidiwyd y tabl gweithgareddau er mwyn dangos y gweithgaredd a restrwyd o'r rheoliadau, a'r Gweithgareddau sydd â Chysylltiad Uniongyrchol. Ychwanegwyd dau fath o wastraff er mwyn i'r gwastraffoedd trwyddedig fod yn unol â phrotocol ansawdd compostio, ac ychwanegwyd amod ar blâu. Bu newid bach i'r amod ar arogl er mwyn iddo gyd-fynd ag amodau'r templed newydd. Ychwanegwyd dau ddehongliad newydd a newidiwyd rhai er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r rheoliadau. Newidiwyd teitl yr Asesiad Risg Cyffredinol ond ni fu newid i'r asesiad risg ei hun.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.10 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No10 – Cyfleuster treulio anaerobig ar y fferm gan ddefnyddio gwastraffoedd fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio bionwyon canlyniadol, Gweithrediad gwastraff

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Newidiwyd y teitl a'r rhagair i gynnwys y gair 'trin' o ran capasiti. Newidiwyd y tabl gweithgareddau i gynnwys terfyn dyddiol ar drin yn unol â'r rheoliadau. Ychwanegwyd amod ar blâu. Bu newid bach i'r amod ar arogl er mwyn iddo gyd-fynd ag amodau'r templed newydd. Ychwanegwyd dau ddehongliad newydd a diweddarwyd rhai a thynnwyd rhai allan, a newidiwyd teitl yr Asesiad Risg Cyffredinol ond ni fu newid i'r asesiad risg ei hun.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.11 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No12 – Treulio anaerobig gan ddefnyddio bionwyon canlyniadol, Gweithrediad gwastraff

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Newidiwyd y teitl a'r rhagair i gynnwys y gair 'trin' o ran capasiti. Newidiwyd y tabl gweithgareddau i gynnwys terfyn dyddiol ar drin yn unol â'r rheoliadau. Newidiwyd y cofnod cod gwastraff ar gyfer glyserol i ddangos bod hwn yn gofnod peryglus absoliwt, ac ychwanegwyd terfynau o ran storio a thrin gwastraff peryglus at y tabl gweithgareddau. Tynnwyd 19 05 99 ei dynnu allan a rhoddwyd 16 10 02 yn ei le. Tynnwyd y mathau gwastraff 19 05 01, 19 05 02 a 19 05 03 allan gan nad ydynt yn addas ar gyfer proses Treulio Anaerobig wlyb, sef yr hyn y mae'r rheolau hyn yn ei ganiatáu. Pennwyd y codau 19 06 03, 19 06 04, 19 06 05, a 19 06 06 er mwyn caniatáu gwastraffoedd o brosesau trin sy'n defnyddio'r gwastraffoedd a restrir yn y rheolau safonol hyn yn unig. Ychwanegwyd amod ar blâu. Bu newid bach i'r amod ar arogl er mwyn iddo gyd-fynd ag amodau'r templed newydd. Ychwanegwyd dau ddehongliad newydd, tynnwyd rhai allan a diweddarwyd rhai a newidiwyd teitl yr Asesiad Risg Cyffredinol ond ni fu newid i'r asesiad risg ei hun.

Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

## 3.12 Newidiadau i set bresennol o reolau SR2012No13 – Trin Lludw Gwaelod Llosgyddion Gosodiad Rhan A

Newidiwyd y set hon o reolau yn sgil y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol sy'n cael ei gweithredu trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r newidiadau wedi'i gwneud yn glir y gall deiliaid y drwydded drin dros 75 tunnell y dydd o fathau trwyddedig o wastraff a newidiwyd y tabl gweithgareddau i ddangos y gweithgaredd a restrwyd a Gweithgareddau sydd â Chysylltiad Uniongyrchol. Ceir hefyd diweddariad i'r amod ar arogl a'r gofynion hysbysu, a diweddarwyd rhai o'r dehongliadau. Ni fu newid i'r asesiad risg cyffredinol.
Ni fydd costau cyfredol y drwydded hon yn newid.

# 4. Cwestiynau Ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi gyfrannu at y diwygiadau arfaethedig i'r setiau presennol. Dylid eu cyhoeddi ganol 2015.

Croesawem eich adborth ar y cwestiynau isod yn benodol:

**C1. A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig yr ydym wedi'u gosod yn yr ymgynghoriad hwn?**

**C2. A oes unrhyw rwystrau rhag cydymffurfio â'r rheolau safonol?**

C3. Dywedwch wrthym unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill sydd gennych ar y newidiadau arfaethedig hyn nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol.

# 5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## 5.1 Dyddiadau pwysig

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 30 Ebrill 2015 ac yn parhau hyd at 30 Gorffennaf 2015

## 5.2 Sut i ymateb

Gallwch weld dogfennau'r ymgynghoriad a'r cwestiynau ar-lein yn www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Os hoffech ofyn am fersiwn bapur o'r ddogfen trwy'r post, cysylltwch â'n canolfan Cyswllt Cwsmeriaid trwy e-bost, dros y ffôn neu drwy'r post:

| | |
|---|---|
| E-bost: | ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| Ffôn: | 0300 065 3000 |
| Post: | Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria<br>Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0T |

Gallwch gyflwyno'ch ymateb trwy e-bost neu lythyr. Anfonwch eich ymatebion erbyn 20 Chwefror 2015 i'r cyfeiriad uchod.

## 5.3 Sut y bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion o'r ymgynghoriad hwn i ffurfio cynigion i Lywodraeth Cymru. Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymdrin â'r ymgynghoriad hwn yn gweld yr holl ymatebion yn llawn.

## 5.4 Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Trwy gydol yr ymgynghoriad bydd yr holl sylwadau (heblaw am wybodaeth bersonol) ar gael yn gyhoeddus ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a geir ar-lein, trwy e-bost, post neu ffacs, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol am gadw'ch ymateb yn gyfrinachol. Dim ond enwau sefydliadau sy'n ymateb a gaiff eu cyhoeddi, nid unigolion.

Os ydych yn ymateb ar-lein neu'n rhoi cyfeiriad e-bost, caiff eich ymateb ei gydnabod. Pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Byddwn yn cysylltu i roi gwybod i chi pan fydd hwn ar gael. Cewch wybod hefyd am unrhyw ymgynghoriadau basn afon sydd ar ddod oni bai y dewiswch beidio cael gwybod.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd yn rhaid i ni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych wedi gofyn am gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, efallai y bydd yn rhaid i ni ddarparu crynodeb ohono o hyd.